**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 8fed Gorffennaf 2025 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) , Lynford Thomas, Glyn Davies, Alan Henson, Hywel Ifans, Lyn Williams, Dan Evans, Wendy Lewis, Euros Davies, Melinda Williams

Y Cyng. Sir Ceris Jones.

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Gerwyn Owen
2. PERSONOL – dim materion personol
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL –** dim i'w datgelu
4. **DATGANIAD DERBYN SWYDD**
   Croesawyd y ddau aelod newydd a gyfetholwyd yng nghyfarfod mis Mehefin, sef Y Cyng. Wendy Lloyd Lewis (Ward Dihewyd) a'r Cyng. Euros Davies (Llanfihangel Ystrad). Arwywddwyd y datganiad derbyn swydd ac ymrwymwyd i dderbyn a chadw at Y Cod Ymddygiad.
5. **CADARNHAU COFNODION 10/06/25**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng.Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas a'u derbyniwyd yn unfrydol.
6. **MATERION YN CODI**

   **14.c (Mai) Bont Glanafon.** Derbyniwyd ymateb gan Jonathan Hughes, Technegydd Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau y bydd yn gwneud ymchwiliad pellach i ddiogelwch y bont.

   **12 a Bwrdd Dŵr.** Yn dilyn cŵyn Lyn am safon y gwaith yng Nghribyn, cafwyd ymateb gan y Bwrdd Dŵr a nodwyd y dylai'r gwaith cymennu fod wedi digwydd yng nghynt.

   **12b. Bocs Posto Dihewyd**. Cafwyd ymateb gan y Post Brenhinol yn nodi pe bai'r bocs yn cael ei dynnu o'r lleoliad dan sylw a bod yna focs arall o fewn milltir, ni fydd bocs newydd yn cael ei osod yn unman arall. Penderfynwyd gadel pethe fel ma' nhw.

## 6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Ceris Jones. Cadarnhaodd bod cais cynllunio CPD Felinfach wedi bod yn llwyddiannus a bydd y gwaith yn dechrau ar ddiwedd y mis.

## 7. ADRODDIAD YR HEDDLU

Cafwyd adroddiad gan PC Liz Jenkins yn nodi'r ffigurau troseddu am fis Mehefin 2025 sef 1 achos o ddwyn ac un o aflonyddu. Nododd hefyd bod offer DNA ar gael gan yr Heddlu (neu ar y wê) am £20 i'w defnyddio ar feiciau fferm er mwyn eu hadnabod pe baent yn cael eu dwyn. Gofynnodd hefyd am i'r Cyngor rannu unrhyw faterion maent yn teimlo sy'n flaenoriaeth iddynt. Yn dilyn trafodaeth**, penderfynwyd** sôn wrthi mai mynd i'r afael â problem cyffuriau yn yr ardal yw'r flaenoriaeth.

## 8. CYLLID

i. Tal y Clerc mis Mehefin £228.73

ii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd 10/5/25 – 9/6/25 £4.25

iii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif Llanfihangel Ystrad 10/5/25 – 9/6/25 - £4.63 ((1 siec @0.50c – gostyngiad o 0.12c)

iv. Gan fod £51 yn mynd mas yn flynyddol o Gronfa'r Cadeirydd ac yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** trosglywddo £300 i Gronfa'r Cadeirydd. (£234.70 yn y cyfrif ar hyn o bryd)

v. Ad-daliad TAW £342.25 wedi cyrraedd - (25/6/25)

vi. Cino'r Cadeirydd : £196.00 am y gino £117 am y bws.

vii. Cae Hir, plannu blodau - £419.00

## 9. CYNLLUNIO

a. A250423 Frongoy, Cribyn SA48 7NL**. Penderfynwyd** nad oedd angen gweithredu pellach.

b. A250413 Frondolau, Bwlchllan SA48 8QJ Gan fod hwn yn Ward Llanfihangel Ystrad ond Cymuned Nantcwnlle cysylltwyd â'r Adran Gynllunio i wirio pwy ddylai fod yn ymateb i hwn. Ni dderbyniwyd ateb.

c. A250443 Meysydd Cribyn. **Penderfynwyd** yn unfrydol cefnogi'r cais.

## 10. GOHEBIAETH

i. **Un Llais Cymru.** Derbyniwyd llythyr yn gwahodd cynghorau i gymryd rhan mewn cyfarfod cyswllt-o-bell ar 3ydd Medi i drafod y cyfansoddiad a'r

Fframwaith**.** Yn sgil y llythyr a dderbyniwyd ym mis Mehefin, cytunodd y Cyng. Lynford Thomas y byddai'n fodlon mynychu'r cyfarfodydd rhanbarth.

ii. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Cerebral Palsy Cymru am y rhodd o £50.00
iii. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Sandy Bear's Children's Charity am y rhodd o £100.00

## 11. UNRHYW FATER ARALL

a. **Mainc Bro Henllys**.Nododd y Cyng. Lynford Thomas dymuniad trigolion Bro Henllys i gael mainc newydd. Yn dilyn trafodaeth am brisiau**, penderfynwyd** cysylltu â Solway i archebu mainc ac i gadaernhau'r pris o £310.00+TAW gyda'r geiriad yn ychwanegol.
b. **Tsaen y Cadeirydd.** Trwy garedigrwydd cwsmer i'r Cyng. Alan Henson mae'r tsaen wedi ei ddiweddaru heb unrhyw gost i'r cyngor. **Penderfynwyd h**ala llythyr o ddiolch i'r cwmni.
c. Nododd y Cyng. Lyn Williams nifer o gwynion a dderbyniodd parthed cyflymder traffig drwy pentre Cribyn ac yn arbennig yn gynnar yn y bore**. Penderfynwyd** cysylltu â Go Safe i ofyn os ydi'r fan yn mynd i ail-ddechrau monitro cyflymder traffig yn fuan.
d. Nododd y Cyng.Williams bod y ffosydd yn pentre Cribyn yn llawn ac angen eu clirio. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Cyngor Sir ac anfonwyd lluniau o dystiolaeth.
e. Nododd y Cyng. Lyn Williams bod yr hewl o groesffordd Penlangroes i Dihewyd mewn cyflwr gwael ac yn llawn tyllau. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Cyngor Sir ac anfonwyd lluniau o dystiolaeth.
f. Nododd y Cyng. Hywel Ifans bod cerrig wedi eu rhoi o flaen Charnwood, Dihewyd sydd yn creu rhwystr i gerbydau. Penderfywnyd cysylltu â'r Sir i ofyn pe bai modd gwirio a ydynt o fewn y terfynau a ganiateir o fewn rheolau'r priffyrdd o 500mm.

## 12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Medi'r 2il yn Neuadd Felinfach